TIRLUN

# PA FWYD LLEOL ALLAI FOD YN FWYD LLAWN LLES AR GYFER Y DYFODOL? – DYFFRYN GWY

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn darganfod o ble mae'r bwyd maen nhw'n ei fwyta yn dod ac yn ystyried a ddylen nhw fwyta bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol. Maen nhw'n dod i wybod am fwydydd sy'n cael eu cynhyrchu yn Nyffryn Gwy ac yn mynd ymlaen i edrych ar beth o hanes bwyd o'r fath, gan edrych ar fêl yn benodol. Mae dysgwyr yn adnabod gwahanol rywogaethau gwenyn, yn archwilio'r broses beillio ac yn dysgu mwy am y wenynen fêl a bywyd y tu mewn i gwch gwenyn. Maent yn cyrchu mêl fel y gallant wneud pryd o fwyd a'i werthu yn yr ysgol.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Cynhwysion a ddetholwyd gan y dysgwyr ar gyfer gwneud pryd o fwyd sy'n gwneud defnydd o fêl.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Sylwer, os gwelwch yn dda: i gael mynediad at is-deitlau Cymraeg ar fideo, cliciwch ar 'Settings', yna detholwch 'Subtitles', yna 'Auto-translate' a dewis 'Welsh'.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

## O BLE MAE EIN BWYD YN DOD?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddarganfod mwy ynghylch o ble y daw'r bwyd maen nhw'n ei fwyta ac i ystyried a ddylen nhw fwyta bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol.

### Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl am y pryd o fwyd diwethaf y gwnaethon nhw ei fwyta ac yna ateb y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd yn y pryd bwyd? Rhestrwch y cydrannau.
- O ble y prynwyd pob cydran, yn eich barn chi?
- Beth oedd cynhwysion pob cydran, yn eich barn chi?
- Ym mhle y cynhyrchwyd pob cydran/cynhwysyn, yn eich barn chi?
- Pa gydran/cynhwysyn deithiodd bellaf i gyrraedd eich plât? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gofynnwch i'r dysgwyr lunio map meddwl i ddangos eu syniadau.

## Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i wneud rhywfaint o ymchwil ar-lein i ddarganfod a yw eu syniadau ar eu map meddwl yn gywir.

Gofynnwch iddyn nhw feddwl...

- Pa beiriant chwilio neu AI fyddwch chi'n ei ddefnyddio? Pam?
- Beth yw'r termau neu awgrymiadau chwilio allweddol i'w defnyddio? Beth ydych chi eisiau ei ddarganfod?
- Pa fath o wefannau fydd y rhai gorau i edrych arnynt? Pam?

Yna, dylent wneud poster digidol i ddangos eu canfyddiadau.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar eu poster digidol ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaeth eich synnu ynghylch o ble daeth y bwyd? Pam y gwnaeth hyn eich synnu?
- Gan feddwl am y bwyd a deithiodd bellaf, ym mhle y gellid tyfu neu gynhyrchu'r bwyd hwn yn lleol? Sut ydych chi'n gwybod?

## Sgrîn 6

Mae sgrîn olaf y dasg hon yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio un neu fwy o'r ymadroddion a ddarperir ar ddechrau brawddegau, wrth iddynt fyfyrio ar y dasg: Deallais yn well pan...; Y peth oedd yn gymorth mawr i mi heddiw oedd...; Un peth a wnaethom heddiw a wnaeth i mi sylweddoli...; Er mwyn gwella, gallwn i...; Ar ôl darllen, dwi'n...; Gallwn i ddefnyddio'r strategaeth hon pan...; Ar ôl siarad â...; Y tro nesaf, gallwn i...; Y peth mwyaf anodd i mi oedd...; Un syniad/peth dwi'n dal ddim yn ei ddeall ydy...

TASG 2

# PA FWYDYDD MAE DYFFRYN GWY YN EU CYNHYRCHU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn dod i wybod am fwydydd sy'n cael eu cynhyrchu yn Nyffryn Gwy ac yn mynd ymlaen i edrych ar ychydig o hanes bwydydd o'r fath, yn y dasg hon. Mae'n ddoeth peidio â dweud wrthynt fod y dasg hon yn ymwneud â mêl, er mwyn cyfoethogi eu dysg yn y dasg lle defnyddir sgwâr ffynhonnell.

## Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, hysbysir y dysgwyr bod llawer o gynhyrchwyr bwyd rhagorol yn Nyffryn Gwy. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa gynhyrchwyr bwyd lleol ydych chi'n gwybod amdanynt? Beth maen nhw'n ei gynhyrchu?
- Sut allwch chi ddod i wybod am gynhyrchwyr bwyd lleol eraill? Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud rhestr o 10 cynhyrchydd bwyd lleol a disgrifio beth maen nhw'n ei wneud.

## Sgrîn 4

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau canlynol mewn perthynas â'r ddelwedd sydd yn y sgwâr ffynhonnell.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth allwch chi ei arsylwi?
- Beth allwch chi ei gasglu?
- Beth arall ydych chi eisiau ei wybod?
- Sut y byddwch chi'n cael gwybod?

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr bod cwmnïau lleol yn cynhyrchu cynhyrchion mêl gan wenyn. Eglurwch ei bod yn anodd dweud yn union pa mor hir y mae mêl wedi bodoli, oherwydd mae wedi bod o gwmpas ers cyn belled yn ôl ag y dechreuwyd cadw cofnodion.

Mae paentiadau ogofâu yn Sbaen o 7000 Cyn y Cyfnod Cyffredin yn dangos y cofnodion cynharaf o gadw gwenyn. Fodd bynnag, mae ffosilau gwenyn mêl yn dyddio'n ôl tua 150 miliwn o flynyddoedd.

Mae ei briodweddau 'hudol' a'i amlochredd wedi sicrhau rhan arwyddocaol i fêl mewn hanes.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A ydych chi wedi bwyta mêl? Pryd? Gyda beth?
- Os ydych chi wedi ei fwyta, sut flas oedd arno?
- Pa gynhyrchion eraill sy'n cael eu gwneud o fêl? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa gynhyrchion sy'n cael eu gwneud o gŵyr gwenyn? Pryd ydych chi wedi eu gweld neu wedi defnyddio'r cynhyrchion hyn?

## Sgriniau 7-8

Ar y sgriniau hyn, darperir amrywiaeth o wybodaeth ynghylch sut mae mêl wedi cael ei ddefnyddio'n draddodiadol fel meddyginiaeth a bwyd llawn maeth mewn gwahanol wledydd ledled y byd. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y wybodaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pam mae mêl yn cael ei ystyried yn fwyd arbennig?
- Pam ydych chi'n meddwl y dylem ni fwyta mêl amrwd yn hytrach na mêl wedi'i basteureiddio?

TASG 3

# SUT FYWYD MAE GWENYNEN YN EI GAEL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn eu helpu i adnabod gwahanol rywogaethau o wenyn ac i ddysgu mwy am y wenynen fêl a bywyd y tu mewn i gwch gwenyn. Maent yn archwilio'r broses beillio ac yn myfyrio ar y dasg.

## Sgrîn 3

Rhowch wybod i'r dysgwyr bod dros 270 o rywogaethau gwenyn ym Mhrydain, gan amrywio o'r wenynen fêl adnabyddus, i gacwn a gwenyn unigol.

Dywedwch wrthyn nhw eu bod am fynd allan i'r awyr agored er mwyn ceisio adnabod rhai rhywogaethau gwenyn.

Gallai dysgwyr ddefnyddio ap rhad ac am ddim o'r enw Bee machine, sydd ar gael ar iStore neu GooglePlay.

Eglurwch eich bod yn tynnu llun o'r wenynen a bydd yr ap yn rhagfynegi pa rywogaeth ydyw. Drwy ychwanegu gwybodaeth ynghylch lle gwelsoch y wenynen, bydd y data hwn yn cael ei gasglu ar gyfer rhoi trosolwg i wyddonwyr o rywogaethau gwenyn yn y DU.

Fel arall, gallai dysgwyr gyrchu Collection: Apoidea (bees) (Saesneg yn unig), sef safle sy'n ceisio cynnwys pob rhywogaeth gwenyn yn y DU.

## Sgrîn 4

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored a'u gwahodd i ddefnyddio'r ap i adnabod rhai rhywogaethau gwenyn.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rywogaeth o wenyn wnaethoch chi ddod o hyd iddi?
- Faint o wahanol rywogaethau gwenyn wnaethoch chi ddod o hyd iddynt?
- Pa un oedd y rywogaeth fwyaf o wenyn y daethoch o hyd iddi?
- Pa un oedd y rywogaeth leiaf o wenyn y daethoch o hyd iddi?
- Pam ydych chi'n meddwl na ddaethoch chi o hyd i bob un o'r 270 a mwy o rywogaethau o wenyn sy'n byw yn y DU?

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr mai dim ond un rhywogaeth o wenyn mêl sy'n byw yn y DU. Yn y gwyllt, mae gwenyn mêl yn byw mewn cychod gwenyn mawr sy'n cynnwys crwybrau cwyr, mewn ardaloedd coediog.

Mae'r frenhines yn dodwy wyau, tra bod y gweithwyr yn gofalu am yr ifanc, bron fel meithrinfa wenyn fawr. Bob blwyddyn bydd brenhines newydd naill ai'n cymryd lle ei mham, neu'n gadael y cwch er mwyn dechrau ei nythfa ei hun.

Rydym yn darparu cychod gwenyn ar gyfer cytrefi o wenyn, fel y gallwn wneud mêl.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r fideo: What You'd See If You Could Walk Into a Beehive (tua 8 munud o hyd) ac yna gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae'r gwenyn gwarchod yn ei wneud?
- O beth mae'r crwybrau wedi'u gwneud?
- Ar gyfer beth mae gwenyn yn defnyddio crwybrau?
- Beth mae'r gwenyn gweithgar yn ei wneud?
- Pam mae'r gwenyn gweithgar yn dawnsio?
- Sut mae gwenyn yn cynnal tymheredd y cwch gwenyn?
- Beth mae gwenyn gormes yn ei wneud?
- Beth mae'r frenhines yn ei wneud?
- Sut mae nythfa newydd o wenyn yn ffurfio?
- Pam ei bod hi'n bwysig bod pob gwenynen mewn nythfa yn cydweithio?

## Sgrîn 8

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am gael problem i'w datrys. Eglurwch fod un wenynen weithgar yn cynhyrchu 1/12fed (tua 7g) o lwy de o fêl yn ystod ei hoes.

Ar y cyfan, gall cwch gwenyn gynhyrchu mwy na 200 pwys o fêl ar gyfer y nythfa mewn blwyddyn. O'r swm hwn, gall gwenynwr gynaeafu 30-60 pwys o fêl heb beryglu goroesiad y cwch gwenyn yn y gaeaf.

1 pwys = 0.45 cilogram.

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y wybodaeth a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut gallwn ni weithio allan faint o wenyn gweithgar sydd mewn cwch gwenyn?
- Dim ond am 6 wythnos y mae gwenyn gweithgar yn byw. Dros flwyddyn, faint yw cyfanswm y gwenyn gweithgar fydd yn weithgar?
- Faint o syndod oedd darganfod nifer y gwenyn gweithgar sydd mewn cwch gwenyn? Pam?

## Sgrîn 9

Ar y sgrîn hon, rhoddir gwybodaeth am bwysigrwydd peillio, anifeiliaid sy'n beillwyr a sut maen nhw'n cario paill o blanhigyn i blanhigyn. Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y wybodaeth ac i archwilio'r dudalen we: Caru peillwyr – Cyfoeth Naturiol Cymru. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r prif risgiau i'n peillwyr?
- Sut gallwn ni helpu ein peillwyr i oroesi?

### Sgrîn 10

Ar y sgrîn hon, rhoddir eglurhad i'r dysgwyr ynghylch y bygythiad i wenyn mêl gan y gacynen Asiaidd. Gwahoddwch nhw i ddarllen yr erthygl am y gacynen Asiaidd: Asian Hornet – Wye Valley Beekeepers Association (Saesneg yn unig) ac yna i ysgrifennu Trydar/X fel gohebydd newyddion, yn rhybuddio pobl am gacwn Asiaidd.

### Sgrîn 11

Ar sgrîn olaf y dasg hon, darperir 10 ymadrodd gwahanol y gall dysgwyr eu defnyddio ar ddechrau brawddegau, wrth iddynt fyfyrio ar y dasg.

TASG 4

## SUT GALLWN NI WNEUD A GWERTHU PRYD O FWYD SY'N DEFNYDDIO MÊL?

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n dod i wybod am brydau bwyd sy'n cynnwys mêl, yn dod o hyd i fêl ac yn ei ddefnyddio i wneud pryd o fwyd ar gyfer ei werthu mewn caffi dros dro.

### Sgrîn 3

Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio ar-lein i ddarganfod y mathau o brydau bwyd y gellir eu gwneud drwy ddefnyddio mêl. Ar y sgrîn hon, ceir grid CwAMFf y gall dysgwyr ei ddefnyddio  i'w helpu i gynllunio a chynnal eu hymchwiliad. Gofynnwch iddynt storio eu canfyddiadau yn ddigidol.

### Sgrîn 4

Eglurwch wrth y dysgwyr y gellir prynu mêl o archfarchnadoedd a siopau a bod gwenynwyr lleol hefyd yn gwerthu eu mêl eu hunain. Dywedwch wrthyn nhw eu bod am ddod o hyd i fêl a'i ddefnyddio mewn pryd o fwyd i ddau berson, ar gyfer ei werthu yn yr ysgol. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa bryd o fwyd ydych chi'n mynd i'w wneud?
- O ble byddwch chi'n cael eich mêl? Pam ydych chi wedi dewis defnyddio'r math hwn o fêl?
- Faint o fêl sydd ei angen arnoch chi? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- Beth yw'r cynhwysion eraill sydd eu hangen ar gyfer eich pryd o fwyd?
- Faint o bob un o'r cynhwysion eraill fydd ei angen arnoch chi? Sut wnaethoch chi gyfrifo hyn?

## Sgrîn 5

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen iddyn nhw feddwl faint mae'r pryd o fwyd wedi'i gostio i'w wneud, cyn iddynt wneud y pryd bwyd, gan y bydd hyn yn eu helpu i benderfynu am faint o arian y dylent ei werthu. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Faint gostiodd pob pecyn o gynhwysion?
- Faint o bob cynhwysyn wnaethoch chi ei ddefnyddio o'r pecyn?
- Faint gostiodd pob cynhwysyn yn eich pryd o fwyd?
- Faint o ynni wnaethoch chi ei ddefnyddio i goginio'r pryd o fwyd?Sut gallwch chi ddarganfod hyn? Faint gostiodd yr ynni hwn?
- Faint o amser gymerodd y coginio? Pa gost ydych chi'n meddwl y gallai hyn ei ychwanegu at eich pryd o fwyd?
- Pa bris fyddwch chi'n ei godi am eich pryd o fwyd? Pam?
- Faint o elw fyddwch chi'n ei wneud pan fyddwch chi'n gwerthu'ch pryd o fwyd? Sut wnaethoch chi weithio hyn allan?

## Sgrîn 6

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gwerthu eu pryd o fwyd mewn caffi mêl dros dro yn yr ysgol. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth sydd angen i chi ei rhoi i'r bobl a fydd efallai am brynu'ch pryd o fwyd?
- Sut y byddwch yn rhoi'r wybodaeth hon iddynt?
- Ar gyfer pwy mae eich pryd o fwyd yn addas, o ran anghenion dietegol? (e.e. llysieuol, fegan, seliag, diabetig, ac ati)
- Sut y byddwch yn annog pobl i ddewis prynu eich pryd o fwyd?
- Sut byddwch chi'n gwneud i'ch pryd o fwyd edrych yn ddeniadol?

### Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud eu pryd o fwyd a'i werthu yn y caffi mêl dros dro.

### Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio i feddwl sut y gwnaethant gynllunio, gwneud a gwerthu eu pryd mêl. Gwahoddwch y dysgwyr i lusgo a gollwng y termau a ddarperir i ddangos eu meddyliau ac i ystyried pa strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt ac yna i gofnodi eu syniadau.